

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

Cylch Gorchwyl 2025/26

1. Diben

Diben Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yw cydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol i gytuno ar weithredu ar y cyd i sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion yng Nghaerdydd a'r rhanbarth ehangach. Felly, bydd y Bwrdd yn:

- 1.1 Sicrhau gweithredu ar y cyd mewn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bod y 5 egwyddor canlynol yn cael eu mabwysiadu wrth wneud penderfyniadau:
 - **Edrych i'r hirdymor** a dangos bod y Bwrdd yn ymwybodol o les cenedlaethau'r dyfodol ac yn mynd i'r afael ag ef tra'n mynd i'r afael hefyd ag anghenion presennol dinasyddion yng Nghaerdydd;
 - **Gweithredu dull integredig** ac ystyried sut y gall yr amcanion lles effeithio ar bob un o nodau lles Cymru ac amcanion sefydliadol partner;
 - **Cynnwys pobl** â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod atebion lleol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â phobl leol drwy gynyddu ymgysylltu â dinasyddion, yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru;
 - **Cydweithredu** gydag eraill i gyflawni amcanion lles Caerdydd ac ystyried lle y gellid darparu gwasanaethau gyda'i gilydd i fynd i'r afael â her a rennir;
 - **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** drwy ddefnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- 1.2 Sicrhau bod partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddileu rhwystrau a mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ddinas.
- 1.3 Cryfhau arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol i fynd i'r afael â heriau 'sylfaenol a heb eu datrys' o safbwynt dinasyddion a sicrhau ymateb system gyfan effeithiol i anghenion dinasyddion;
- 1.4 Hwyluso modelau darparu newydd drwy gyfuno adnoddau posibl, alinio gwasanaethau'n well ar draws sectorau neu sefydlu trefniadau ar y cyd newydd;
- 1.5 Bod yn bartneriaeth ddysgu sy'n datblygu arfer gorau wrth drawsnewid gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n hwyluso rhannu profiad ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru;
- 1.6 Cydlynu blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a datblygu perthnasau effeithiol sy'n goresgyn rhwystrau sefydliadol;
- 1.7 Cynnal gweithgareddau cydweithredol eraill sy'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y ddinas;

- 1.8 Ymateb i amgylchiadau eithriadol (fel Covid-19, argyfwng Wcráin, a'r argyfwng Gofal Cymdeithasol), a rheoli adferiad o amgylchiadau o'r fath.

2. Prif Gyfrifoldebau

- 2.1 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn gyfrifol am y gofynion statudol canlynol:

- Paratoi, cyhoeddi ac adolygu asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghaerdydd;
- Paratoi Cynllun Lles Lleol ar gyfer Caerdydd sy'n nodi'r amcanion lles lleol a'r camau y mae'n cynnig eu cymryd i'w bodloni;
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion lleol o fewn y Cynllun Lles;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi cynnydd y Bwrdd o ran cyflawni'r amcanion lleol

- 2.2 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn ymdrechu i weithio yn unol â'r canlynol:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
- Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006)
- Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddyletswydd sector cyhoeddus
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a dileu tlodi plant

- 2.3 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, drwy ei Gynllun Lles, yn ceisio cyflawni ei ddyletswyddau statudol¹ mewn perthynas â'r canlynol:

- Y broses Cynllunio Cymunedol a ragwelir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- Gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu gyda'r bwriad o wella lles plant (Deddf Plant 2004);
- Paratoi strategaeth i ymateb i ofynion Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant;
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011;
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymdogaethau Glân 2005;
- Y ddyletswydd i ffurfio a gweithredu Asesiad Anghenion Strategol a Strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anrhefn; Strategaeth ar gyfer brwydro yn erbyn camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill; a Strategaeth ar gyfer lleihau aildroseddu (Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998);
- Y Ddyletswydd Trais Difrifol fel rhan o Ddeddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022;
- Y cynllun ar gyfer darparu cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010);

¹ <https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol>

- Cynhyrchu cynlluniau newydd mewn ymateb i'r asesiad anghenion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014);
- Paratoi Strategaeth leol fel sy'n ofynnol dan Adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015;
- Cynhyrchu datganiadau ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- Paratoi strategaethau i hyrwyddo a hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg.

- 2.4 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau statudol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Caerdydd. Mae PDCau yn gyrff statudol sy'n ofynnol dan Adrannau 5-7 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cynnwys yr 'awdurdodau cyfrifol' fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf (Awdurdod Lleol, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaethau Prawf, Bwrdd Iechyd Lleol) a chynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) a Llywodraeth Cymru.

Wrth gyflawni rôl PDC, bydd yr holl weithgarwch strategol a gweithredol yn cael ei ystyried yn gyntaf gan Fwrdd PDC y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda materion yn cael eu huwchgysylltu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail eithriad neu fel sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau statudol y PDC.

3. Aelodaeth

Aelodau Statudol

- 3.1 Bydd aelodaeth statudol y Bwrdd yn cynnwys;

- Cyngor Caerdydd (Arweinydd a Phrif Weithredwr)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Cadeirydd a/neu Brif Weithredwr)
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (Cadeirydd a/neu Brif Swyddog)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Prif Weithredwr)

- 3.2 Mae'n bosibl y caiff unigolion eu dynodi i gynrychioli unrhyw un o'r personau a enwir uchod. Caiff Arweinydd Cyngor Caerdydd ddynodi aelod arall o Gabinet y Cyngor i'w gynrychioli yn unig. Dylai fod gan unrhyw gynrychiolwyr dynodedig yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad.

- 3.3 Mae aelodau statudol yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni dyletswyddau statudol y Bwrdd.

Gwahoddedigion Statudol

- 3.4 Gwahoddir y gwahoddedigion statudol canlynol, sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, i gyfranogi yng ngweithgarwch y Bwrdd:

- Gweinidogion Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- Cynrychiolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

- 3.5 Gofynnir i'r gwahoddedigion statudol ymuno â'r Bwrdd drwy lythyr gan y Cadeirydd yn rhestru'r rhesymau dros y gwahoddiad a'r hyn a ddisgwylir gan y gwahoddedig.
- 3.6 Nid oes angen i wahoddedigion statudol dderbyn gwahoddiad y Bwrdd.
- 3.7 Fel aelodau o'r Bwrdd, bydd gwahoddedigion statudol yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd ar unrhyw beth y mae'n ei wneud dan ei ddyletswydd lles, gan gynnwys asesu cyflwr lles yn ei ardal, gosod amcanion i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau, a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Mae gan wahoddedigion statudol hawl i wneud sylwadau i'r Bwrdd ynglŷn ag asesiadau lles lleol a'r cynllun lles lleol, cymryd rhan mewn cyfarfodydd y Bwrdd a darparu cyngor a chymorth arall.

Partneriaid Eraill

- 3.8 Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol eraill yn yr ardal sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus ac sydd; â buddiant sylweddol yn lles yr ardal; yn darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig; ac yn ymwneud â pharatoi, gweithredu a chyflawni gwaith y bwrdd.
- 3.9 Bydd y partneriaid hyn yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:
- Cyngorau Cymuned
 - Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
 - Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
 - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
 - Coleg Caerdydd a'r Fro
 - Cyngor Celfyddydau Cymru
 - Cyngor Chwaraeon Cymru
 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 - Amgueddfa Genedlaethol Cymru
 - Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- 3.10 Gall y Bwrdd ystyried pa gyrff eraill, os unrhyw rai, y mae'n dymuno eu gwahodd i gyfranogi yn ei waith ac i ba raddau. Yr unig amod yw bod rhaid iddynt arfer swyddogaethau cyhoeddus. Dylid adolygu aelodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff y blaenoriaethau a nodwyd gan yr amcanion lles eu cefnogi ac y cânt adnoddau ar gyfer eu cyflawni.

4. Cyfarfodydd

Cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

- 4.1 Bydd y Bwrdd yn cynnal "cyfarfod gorfodol" a gadeirir gan arweinydd Cyngor Caerdydd, heb fod yn hwyrach na 60 diwrnod ar ôl ethol Cyngorwyr yn arferol wedi hynny.
- 4.2 Bydd aelodau'r Bwrdd yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod gofodol o'r aelodau statudol a'r gwahoddedigion statudol.

- 4.3 Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn chwarterol bob blwyddyn ariannol, yn amodol ar adolygu aelodau'r Bwrdd.
- 4.4 Mae'n bosibl y caiff cyfarfodydd ychwanegol eu galw fel y cytunir gan y Bwrdd.

5. Is-grwpiau

- 5.1 Gall y Bwrdd sefydlu is-grwpiau i'w gefnogi wrth gyflawni ei swyddogaethau a gall y Bwrdd awdurdodi is-grwpiau i arfer nifer cyfyngedig o swyddogaethau.
- 5.2 Yn ogystal, efallai y bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cytuno i sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i symud darnau penodol o waith (e.e. paratoi Asesiad Lles) ymlaen. Bydd y rhain yn gweithredu ar amser cyfyngedig hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.
- 5.3 Rhaid i bob is-grŵp/grŵp gorchwyl a gorffen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gynnwys o leiaf un aelod statudol o'r Bwrdd (neu gynrychiolydd enwebedig), a gall gynnwys unrhyw gyfranogwr gwadd neu bartner arall.
- 5.4 Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar amcanion pob is-grŵp/grŵp gorchwyl a gorffen pan sefydlir y grŵp.
- 5.5 Bydd pob is-grŵp/grŵp gorchwyl a gorffen yn paratoi cylch gorchwyl a bydd Cadeirydd y grŵp yn ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.
- 5.6 Bydd is-grwpiau/grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu hadolygu'n flynyddol i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol fel sy'n briodol ym marn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Byrddau/Partneriaethau Statudol Eraill

- 5.7 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cyflawni rôl y PDC statudol yng Nghaerdydd. Bydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gan adlewyrchu pwysigrwydd parhaus goruchwyliaeth strategol yn y maes hwn.
- 5.8 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i sicrhau bod goruchwyliaeth a gwelededd priodol rhwng gwaith y ddau fwrdd, gan gynnwys y canlynol:
- Bydd agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu rhannu'n ôl yr arfer ar gyfer pob cyfarfod o'r BGC a'r BPRh.
 - Bydd cyfarfod blynyddol ar y cyd rhwng y BGC a'r BPRh yn cael ei gynnal i drafod blaenoriaethau a rhaglenni gwaith a rennir ar gyfer y flwyddyn i ddod.
 - Bydd y BGC a'r BPRh yn gallu uwchgyfeirio materion i'w gilydd neu ofyn am friff ar unrhyw fater sydd o fewn eu cylch gorchwyl priodol.

- 5.9 Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd hefyd yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer fframwaith partneriaeth gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, gan gynnwys partneriaethau statudol ac anstatudol eraill.

6. Gwneud Penderfyniadau

- 6.1 Mae penderfyniadau'r Bwrdd, er enghraifft cytuno'r asesiad lles lleol a'r cynllun lles lleol, dim ond yn ddilys pan y'u gwneir ar y cyd neu'n ddienw gan yr holl aelodau a chyda'r holl aelodau'n bresennol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodi a chymeradwyo yn unol â threfniadau llywodraethu mewnol ar gyfer pob sefydliad unigol a gynrychiolir.
- 6.2 Yn achos anghytundeb rhwng yr aelodau, cyfrifoldeb y Cadeirydd yw cyfryngu cytundeb a sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf sydd y Bwrdd neu mewn cyfarfod arbennig os oes angen..

7. Craffu

- 7.1 Bydd y Bwrdd yn destun craffu gan bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol. Bydd gwaith y Bwrdd hefyd yn agored i graffu gan bwyllgorau pwnc.

8. Ysgrifenyddiaeth

- 8.1 Cyngor Caerdydd sy'n rhoi cymorth gweinyddol i'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys:
- Sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd;
 - Paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd;
 - Gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb;
 - Cydlynu'r gwaith o baratoi'r adroddiad blynyddol;
 - Paratoi tystiolaeth ar gyfer craffu.
- 8.2 Mae'r aelodau statudol yn gyfartal gyfrifol am sicrhau adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. Bydd cyfraniadau yn cael eu hadolygu a'u cytuno gan y Bwrdd yn ôl yr angen.

9. Cyfranogiad Ehangach

- 9.1 Mae dull y Bwrdd o ganolbwyntio ar ddinasyddion yn golygu y bydd yn ymgysylltu mewn perthynas bwrpasol â phobl a chymunedau ledled Caerdydd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a'r rhai â nodweddion gwarchodedig, ym mhob agwedd ar ei waith.
- 9.2 Mae angen i'r Bwrdd gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltiad mewn perthynas â'r asesiad drafft o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a'r Cynllun Lles drafft.
- 9.3 Bydd y Bwrdd yn gwneud y mwyaf o'r mecanweithiau a'r rhwydweithiau presennol i sicrhau bod gwybodaeth gymunedol yn llywio'r gwaith o gyflawni a blaenoriaethu amcanion lles.

9.4 Mae'r Bwrdd yn destun craffu drwy Bwyllgor/Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ac mae'r broses hon yn darparu llwybr pellach ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

10. Adolygu

10.1 Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol.